

Gyrfaoedd mewn therapi orthodonteg



Yn gymharol newydd i'r tîm deintyddol, mae therapyddion orthodonteg yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu triniaethau orthodonteg, cefnogi orthodeintyddion i sythu dannedd cleifion a chael gwen perffaith!

Beth mae therapyddion orthodonteg yn ei wneud?

Gan weithio i gyfarwyddyd orthodeintydd, rôl therapydd orthodonteg yw helpu i drin cleifion y mae angen alinio eu dannedd. Gall rôl y therapydd orthodonteg gwmpasu'r profiad orthodonteg llawn.

All hyn ddechrau gyda gosod bresys a darparu cyngor ar sut i ofalu amdanynt yn gywir, hyd at gymryd mowldiau o'r dannedd, tynnu'r bresys ac yn olaf gosod `darnau cadw` ar ddannedd claf i wneud yn siŵr eu bod yn aros yn yr un sefyllfa ar ôl iddynt gael ei sythu.

Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn therapydd orthodonteg da?

- bydd esbonio gwybodaeth i gleifion a gweithio'n agos gyda'r tîm orthodonteg yn gofyn bod gennych sgiliau cyfathrebu da
- bydd angen i chi fod â natur dawel, gyfeillgar a dymunol i'ch galluogi i wneud i gleifion deimlo'n gyfforddus yn ystod apwyntiadau
- fel rôl ymarferol, mae angen lefel uchel o ddehurwydd llaw i'ch galluogi i ddefnyddio offer amrywiol a chynnal triniaethau yn fanwl gywir
- bydd angen i chi gael golwg dda
- gallu gweithio'n dda fel rhan o dîm
- bydd angen i chi hefyd fod yn drefnus, bod â sylw da i fanylion a bod â sgiliau TG da yn ogystal.

Ble mae therapyddion orthodonteg yn gweithio?

Mae therapyddion orthodonteg yn gweithio ar draws ystod o leoliadau:

- practis deintyddol cyffredinol
- clinigau cymunedol
- ysbytai.

Sut mae dod yn ddeintydd therapydd orthodonteg?

Cam un: er mwyn dilyn gyrfa mewn therapi orthodonteg rhaid i chi fod yn weithiwr deintyddol proffesiynol cymwys. Mae rôl therapydd orthodonteg yn ddewis gyrfa boblogaidd ymhlith nyrsys deintyddol ond mae hefyd yn agored i hylenyddion deintyddol, therapyddion a thechnegwyr.

Cam dau: bydd angen i chi gael 45 wythnos o hyfforddiant amser llawn (neu gyfwerth rhan-amser) a chyflawni diploma mewn therapi orthodonteg.

Eisiau darganfod mwy?

Tregyrfa: <https://careersville.heiw.wales/cy>

Gyrfaedd GIG Cymru: <http://www.gyrfaeddgigcymru.com/>